Yr Arweinydd

Cysyniadau: **Cryfder, gosod esiampl.**

Amcan: **Trafod rhagoriaethau arweinydd da.**

Cyfarpar: **Halen a channwyll.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant pwy yw eu harweinyddion. Bydd rhai yn siŵr o enwi rhai o fyd chwaraeon a byd adloniant. Pam maen nhw wedi dewis y rhain? Beth yw eu rhinweddau?

● Pa fath o arweinydd sydd ei angen mewn ysgol, cymuned, gwlad a'r byd?

● Beth sy'n gwneud arweinydd da? Gellir trafod nodweddion fel: gwrando ar bobl o'u cwmpas, bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd, cynllunio'n ofalus cyn dod i benderfyniad, bod yn driw.

● Mae arweinyddion gwael yn aml yn gwneud penderfyniadau ar eu pennau'u hunain, yn methu creu perthynas ac yn disgwyl i eraill wneud y gwaith i gyd.

Stori:

Mae rhai yn credu mai'r arweinydd gorau a welodd y byd oedd Iesu Grist. Cafodd ei eni i deulu tlawd, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ar ôl iddo dreulio rhai blynyddoedd yn gweithio fel saer yn Nasareth penderfynodd ei fod am ddechrau ar waith cwbl wahanol. Gadawodd y gweithdy a galwodd griw o ddeuddeg i gydweithio gydag o. Treuliodd amser yn edrych o'i gwmpas ar sut oedd y bobl gyffredin yn byw yn y pentrefi yng Ngalilea. Roedd yn awyddus iawn i'w helpu. Pobl dlawd oedd y mwyafrif ohonyn nhw'n ceisio gwneud

bywoliaeth o drin y tir ac amaethu. Roedden nhw hefyd yn byw dan ormes. Yr Ymerodraeth Rufeinig oedd yn llywodraethu'r wlad.

Yn Iesu, fe gafodd y bobl gyffredin arweinydd tan gamp. Roedd Iesu yn gweld eu hangen ac yn ceisio eu helpu i fyw bywyd gwell. Roedd ef a'i ddisgyblion yn mynd o bentref i bentref i helpu'r bobl drwy gynnig ffordd well iddyn nhw a thrwy hynny greu byd gwell.

Dowch i ni edrych ar rai o ddulliau Iesu.

Mae'n mynd ati i greu tîm i'w helpu. Mae'n dysgu'r disgyblion ac yn dweud wrthyn nhw mai nhw ydi halen y ddaear a goleuni'r byd. Mae halen yn rhoi blas ar y bwyd ac mae goleuni yn rhoi golau i weld. (Mathew 5:13-16)

Mae ei neges yn glir, yn syml ac yn ddealladwy. Mae'n dysgu trwy ddweud stori (dameg). Gellir trafod un ddameg, e.e. dameg y bugail sy'n chwilio am y ddafad sydd ar goll. (Luc 15:4-6)

Mae arweinydd da yn ysgogi eraill. Yn Jericho mae'n cyfarfod â phrif gasglwr trethi, Sacheus, ac mae'n ei gymell i newid ei ffordd o fyw. (Luc 19:1-9)

Mae Iesu'n arwain trwy ddangos esiamplau ac yn gweithredu ar ei union, e.e. gwella mam yng nghyfraith Pedr. (Marc 1:29-31)

Mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn hyfforddi'r tîm (y disgyblion) ac yn eu hanfon allan fesul dau i helpu'r gymuned. (Luc 9:2-6)

Tasg arweinydd da ydi pontio rhwng gwahanol garfanau. Ymhlith y disgyblion y mae dau sydd â daliadau cwbl wahanol, Simon Selotes a Mathew. Roedd Simon yn perthyn i griw o bobl (Selotiaid) oedd eisiau brwydro'n erbyn Rhufain ac roedd Mathew wedi bod yn casglu trethi i Rufain. Dau begwn. Ond mae'r ddau yn cyd-dynnu yn nhîm Iesu.

Mae Iesu'r arweinydd yn gwneud gwaith y gwas bach sef golchi traed ei ddisgyblion. Tasg y gwas lleiaf oedd hon ond yma mae Iesu'n cymryd y tywel ac yn mynd ati i olchi eu traed. (Ioan 13:3-5) Yna mae Iesu'n eu cymell i wneud yr un peth i'w gilydd. (Ioan 13:14)

(Ni ellir trafod pob un o'r rhain mewn un gwasanaeth. Gellir cymryd un agwedd bob hyn a hyn a'u trafod.)

Munud i feddwl:

'Mae arweinydd da yn adnabod y ffordd, yn cerdded y ffordd ac yn dangos y ffordd i eraill.' John C. Maxwell

Mae pob arweinydd da yn helpu i wella bywydau pobl eraill. Sam Houston

Emyn: Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd: Canu Clod 247

Dyfyniad o'r Beibl:
"Fi ydy'r ffordd," atebodd Iesu, "yr un gwir a'r bywyd." Ioan 14:6 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:
Mae arweinydd da, bob amser, yn meddwl am eraill. O Dduw, helpa fi i feddwl am eraill a bod yn barod i'w helpu. Amen.